

Y Grŵp Strategol Cyngori ar Ganiatadau

Yr Is-grŵp Cyngori ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth

2 Chwefror 2020



Yn Bresennol

Cadeirydd – **Jim McKie** (Eurona), **Sharon Davies** (LIC – Trwyddedau Morol), **Rebecca Rees** (LIC – Cynllunio Morol), **James Moon & Kirsten Ramsey** (CNC), **Manon Kynaston** (Ynni Morol Cymru), **Tania Davy** (Yr Ymddiriedolaethau Natur), **Jennifer Fox** (ORJIP-OE), **Sue Barr** (Cambrian Offshore)

1. Cafodd Cynllun Gweithredu SEAGP ei roi ger bron y Grŵp a chytunon nhw i'w gymeradwyo cyn belled â bod newid bach yn cael ei wneud i'r rhagymadrodd. Mae'r Cynllun Gweithredu'n rhestru'r prif bethau y bydd disgwyl i'r Grŵp ei wneud, gan gynnwys cyhoeddi cyfres o Nodiadau Gwybodaeth fydd yn esbonio'r wyddoniaeth ddiweddaraf fel y'i deallir a'r dystiolaeth sydd ei hangen mewn cysylltiad â gosod dyfeisiau ynni tonnau ac ynni ffrwd llanw sengl ac ar raddfa fach yng Nghymru.
2. Gan weithio mewn cydweithrediad â DEAGP, mae ORJIP-OE (Cyd-Raglen y Diwydiant Adnewyddadwy Morol ar gyfer Ynni'r Cefnfor) wedi cytuno i drefnu ac arwain y gwaith o gynhyrchu Nodiadau Gwybodaeth ar ran y Grŵp. Trafodwyd strwythur a diben y Nodiadau Gwybodaeth. Bydd ORJIP-OE yn datblygu methodoleg ar eu cyfer i'r aelodau ei hystyried. Cytunwyd hefyd y dylid datblygu Nodyn Gwybodaeth peilot i'n helpu i ddeall rôl y Nodiadau Gwybodaeth o ran hwyluso'r broses ganiatáu yn y tymor byr a hir.
3. Cafodd y Grŵp drafodaeth gychwynnol am rannu data ac ynghylch pa rai o'r platfformau sydd ar gael, fel y Rhwydwaith Data a Gwybodaeth Amgylcheddol Morol,¹ y gellid eu defnyddio i gadw data prosiectau arnyn nhw, fydd yn agored ar gyfer prosiectau'r dyfodol. Trafodwyd hefyd sut y gellid defnyddio'r dystiolaeth sy'n bod yn well i gefnogi'r broses ganiatáu yng Nghymru. Rhoddwyd ystyriaeth i ddechrau i'r manteision a ddaw o weld SEAGP yn cydweithio ag academia a fforymau rhyngwladol fel Ocean Energy Systems (OES), a sefydlwyd gan yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol, gan eu bod hwythau hefyd yn gweithio i wella'r ffordd y defnyddir y dystiolaeth a gynhyrchir gan brosiectau ledled y byd i gefnogi'r sector ynni adnewyddadwy'r môr.

Y Cyfarfod Nesaf: 13 Ebrill 2021

¹ <https://www.medin.org.uk/>